

# Teithio tuag adre

“Oherwydd nid oes dinas barhaus gennym yma; ceisio yr ydym, yn hytrach, y ddinas sydd i ddod.” (adn. 14)

## Beth am ddarllen Hebreaid 13:7–21 ac yna myfyrio

Beth yw ein casgliad, a ninnau bellach wedi cyrraedd diwrnod olaf ein myfyrdod ar thema'r nefoedd? Rhaid mai dyma'r casgliad pennaf. Wrth i ni feddwl am y nefoedd, fe ddylai ein meddyliau gael eu llenwi gyda'r gwirionedd ein bod ar ein taith tua thre.

Gadewch i mi adrodd hanes wrthych. Nifer fawr o flynyddoedd yn ôl, ar arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau, fe fu i ddwy long fynd heibio ei gilydd, un yn llong fawr gyda hwyliau mawr arni, yr un arall yn llai. Nawr, roedd y llong oedd yn llai yn un oedd yn gwneud dim mwy na mynd o borthladd i borthladd ar yr arfordir dwyreiniol, gan symud pethau fel te, coffi ac yn y blaen. Roedd y llong hwyliau anferth, gyda'i hwyliau mawr, gwyn yn chwythu yn y gwynt yn olygfa ardderchog, ac, wrth iddi basio, fe glywyd aroglau persawr a pherlyisiau yn dod ar yr awel. Yn ôl arfer y cyfnod, fe fyddai capten y llong fechan yn codi ei uchelseinydd ac yn cyfarch y llong hwylio fel hyn: “Y fi yw capten y *Mary Anne*. Rwyf wedi bod allan o Miami ers deuddeg diwrnod yn cludo gwahanol bethau i wahanol borthladdoedd. Rwyf ar fy ffordd i Loegr Newydd. Pwy ydych chi?” Mewn ymateb, daeth llais cryf dros uchelseinydd y llong hwylio: “Y fi yw y *Begun of Bengal*. Rwyf wedi teithio 123 o ddiwrnodau allan o Canton, wedi mynd â phersawr a pherlyisiau i lawer o borthladdoedd dros y byd, a bellach ar fy ffordd adref.

Fel Cristnogion, gallwn wneud yr un honiad. Yr ydym yn mynd o borthladd i borthladd ac yno'n gadael persawr y nefoedd ar ein ffordd drwy'r byd. Ond testun ein llawenydd pennaf yw ein bod ar y ffordd adref.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Heb. 11:8; 12:22; Dat. 21:10; 22:19

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Fel Abraham, beth yw'r hyn yr ydym yn edrych ymlaen i'w weld?
2. Pa ddisgrifiad a geir yn llyfr y Datguddiad?

## Gweddi

Fy Nuw a fy Nhad, cynorthwya fi o heddiw ymlaen i beidio byth ag anghofio fy mod ar hyn o bryd ond mewn arosfan. Mae fy nghartref yn y nefoedd, ac mae fy lle yno wedi ei sicrhau i mi trwy waed yr Oen yn unig. Diolch i ti, O Dad. Yn Iesu Grist. Amen.